## *Noson ffilm Calan Gaeaf clwb ieuenctid Dolwyddelan!!*



Gan mai dyma sesiwn olaf y tymor, penderfynodd pobl ifanc y clwb ieuenctid yr hoffent gael noson ffilm i ddathlu diwedd tymor cyntaf yr ysgol, a hefyd i ddathlu Calan Gaeaf. Bu pobl ifanc y pentref yn pleidleisio ar beth i'w wylio gan benderfynu yn y pendraw ar wylio 'A Nightmare Before Christmas.' Fe wnaeth bawb fwynhau'r noson ffilm gyda'r ffilm ar y sgrin fawr ym mhafiliwn y pentref. Bu i'r holl bobl ifanc ddaeth i'r noson dderbyn bwyd poeth a diodydd. Roedd hefyd gweithgareddau eraill ar thema Calan Gaeaf i'r bobl ifanc gymryd rhan ynddynt, os nad oeddent eisiau gwylio'r ffilm.

Gan fod y sesiwn hon wedi bod yn gymaint o lwyddiant a phobl ifanc y pentref wedi'i mwynhau, byddwn yn cynnal noson ffilm arall ar Ragfyr 17eg 17:00 – 19:00 ym mhafiliwn y pentref gyda bwffe Nadoligaidd ar gael. Yn amlwg, bydd y noson ffilm hon ar thema'r Nadolig.

Felly, os ydych chi'n adnabod person ifanc rhwng 11 - 17 oed yn y pentref sydd ddim yn mynd i'r clwb eisoes, cofiwch ddweud wrthynt fod croeso mawr iddynt ymuno â ni. Bob nos Fercher yn ystod tymor ysgol 17:00 - 19:00.

Diolch, Gweithiwr Ieuenctid yr Ardal, Matt Mullender.



## 2il Gystadleuaeth Rholio Casgenni Blynyddol

Gŵyl San Steffan 1:00yp


Cwrdd am ddiodydd yn y Gwydyr cyn cychwyn.


**GWESTY'R GWYDYR**
Yng nghalon ♥ . . .
Dolwyddelan LL25 0EJ

Ar agor am ddiodydd o 12:00yp tan yr hwyr, bob dydd.
Gweini bwyd o ddydd Mawrth i ddydd Sul
Croeso mawr i gerddwyr a beicwyr.

**Bwydlen Swper 17.00-20.30yh** **Cinio Dydd Sul 12.00-14.30yp**

**Prydau Thai gan Namthip, bob dydd Mercher 17:00-20:30yh**



Archebwch ymlaen llaw . . .
Drwy Facebook/Y Gwydyr Hotel Dolwyddelan neu rif ffôn: 07464 710 257
**Gallwn arlwyo yn breifat ar gyfer partïon a digwyddiadau.**